Cadw

# Croeso i Gastell Biwmares

Castell gwych sy'n dal heb ei orffen!

## Beth i'w weld yng Nghastell Biwmares


1. Gwyliwch rhag taflegrau o'r tyllau llofruddio uchod, saethau'n hedfan trwy'r agennau, neu'r porthcwlis trwm wrth iddo gael ei ollwng.
2. Ydi pensaernïaeth ysblennydd Biwmares wedi'ch ysbrydoli? Cewch godi'ch castell eich hunan, cyfarfod â saer maen a mwy ar eich ymweliad heddiw.
3. Cewch ryfeddu at y ffenestri gwydr lliw modern mirain yn y capel, wedi'u gosod mewn gwaith maen hardd. Roedd gan y brenin siambr breifat yma i wylio'r gwasanaeth.
4. Dringwch i'r llwybr ar ben y muriau i fwynhau harddwch Eryri — cadarnle tywysogion Gwynedd.
5. Crwydrwch rodfeydd muriau'r castell a darganfod toiledau wedi'u gosod yn glyfar — mewn parau, ac iddynt ddrysau a seddi pren.
6. Ar benllanw, gallai llongau hwylio i ddoc y castell, a dadlwytho nwyddau'n hwylus i'r ward allanol trwy ddrws yn y wal.
7. Mynedfa/siop.

Toiledau cyhoeddus gerllaw.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymunwch â Cadw i fwynhau mynediad diderfyn i 131 o safleoedd hanesyddol

Mae'r Cymry wrth eu bodd â dreigiau! Gwaetha'r modd, does dim dreigiau'n byw mewn cestyll, ond rydyn ni wedi cuddio un yn y llun — am hwyl. Allwch chi ei gweld?




AV Pwynt clyweledol

Mae'r heneb hon yng ngofal Cadw, gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Mae Cadw'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei warchod yn dda. Mae'n drosedd difrodi neu ddifwyno'r heneb.

cadw.llyw.cymru

### Er eich diogelwch

Gall henebion fod yn beryglus.
Peidiwch â dringo ar yr heneb.
Cymerwch ofal wrth ymweld â'r safle hwn.
Rhaid goruchwylio plant dan 16 oed trwy'r amser.



Beaumaris Croeso leaflet WELSH v3.indd 1
07/05/2024 15:44